i'r fath raddau y caiff Gweinidogion Cymru eu pennu gan roi sylw i unrhyw gamau a gymerwyd eisoes mewn perthynas â'r apêl.

(2) The appellant and the local planning authority must send two copies of any representations they make to the Welsh Ministers so as to be received within the representation period.

(3) Interested persons must send three copies of the any representations they make to the Welsh Ministers so as to be received within the representation period.

(4) The Welsh Ministers must send a copy of the written comments of each party to the other parties.

**Written representations inappropriate**

**25.**—(1) At any time before an appeal is determined, the Welsh Ministers may determine that the procedures set out in this Part are no longer suitable for that appeal.

(2) Where such a determination is made the Welsh Ministers must notify the appellant and the local planning authority in writing that the appeal will proceed in accordance with Part 5 of these Regulations or by means of combined proceedings, to such extent as the Welsh Ministers may specify having regard to any steps already taken in relation to those proceedings.

## PART 5

### Hearings

**Application of Part 5**

**26.**—(1) This Part applies where—

(a) notice of appeal has been received; and

(b) the Welsh Ministers determine that the appeal is to be considered in whole or in part on the basis of a hearing.

(2) This Part also applies where—

(a) the Welsh Ministers have made a determination that all or part of the appeal is to be considered on the basis of written representations or inquiry; and

(b) they subsequently vary that determination such that the appeal or parts of the appeal is or are to be considered on the basis of a hearing;

to such extent as the Welsh Ministers may specify having regard to any steps already taken in relation to the appeal.

**Hysbysiad ynghylch enw'r person penodedig**

**27.**—(1) Rhaid i Weinidogion Cymru roi hysbysiad ynghylch enw'r person penodedig i bob person a wahoddir i gymryd rhan yn y gwrandawiad.

(2) Pan fo Gweinidogion Cymru yn penodi person arall yn lle'r person a benodwyd yn flaenorol ac nad yw'n ymarferol rhoi hysbysiad ynghylch y penodiad cyn y cynhelir y gwrandawiad, rhaid i'r person penodedig sy'n cynnal y gwrandawiad, ar gychwyn y gwrandawiad hwnnw, gyhoeddi ei enw a'r ffaith ei fod wedi ei benodi.

**Penodi asesydd**

**28.** Pan fo Gweinidogion Cymru yn penodi asesydd o dan baragraff 6 o Atodlen 6 i'r Ddeddf Gynllunio, paragraff 6 o Atodlen 3 i'r Ddeddf Adeiladau Rhestredig neu baragraff 6 o'r Atodlen i'r Ddeddf Sylweddau Peryglus, rhaid iddynt hysbysu'r apelydd, yr awdurdod cynllunio lleol ac unrhyw berson a wahoddir i gymryd rhan yn y gwrandawiad ynghylch enw'r asesydd ac ynghylch y materion y mae'r asesydd i gynghori'r person penodedig yn eu cylch.

**Dyddiad gwrandawiad, lleoliad gwrandawiad a hysbysiad ynghylch gwrandawiad**

**29.**—(1) Rhaid i Weinidogion Cymru bennu dyddiad y gwrandawiad, a rhaid i'r dyddiad hwnnw fod yn ddim hwyrach na 4 wythnos ar ôl diwedd y cyfnod sylwadau.

(2) Pan fo Gweinidogion Cymru yn ystyried ei fod yn anymarferol cynnal y gwrandawiad ar ddyddiad a bennir yn unol â pharagraff (1), rhaid i ddyddiad y gwrandawiad fod y dyddiad cynharaf y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried ei fod yn ymarferol.

(3) Pan fo Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni, gan roi sylw i natur yr apêl, ei bod yn rhesymol gwneud hynny, caiff Gweinidogion Cymru roi cyfarwyddyd y cynhelir rhannau gwahanol o'r gwrandawiad mewn lleoliadau gwahanol.

(4) Rhaid i Weinidogion Cymru roi hysbysiad ysgrifenedig am y dyddiad, yr amser a'r lleoliad a bennir ar gyfer y gwrandawiad o leiaf 4 wythnos ymlaen llaw i—

(a) yr apelydd;

(b) yr awdurdod cynllunio lleol; ac

(c) unrhyw berson a wahoddir i gymryd rhan yn y gwrandawiad.

(5) Rhaid i'r hysbysiad ysgrifenedig o dan baragraff (4) nodi'r materion sydd i'w penderfynu yn y gwrandawiad ac enw'r person penodedig.

**Notification of name of appointed person**

**27.**—(1) The Welsh Ministers must notify the name of the appointed person to every person invited to take part in the hearing.

(2) Where the Welsh Ministers appoint another person instead of the person previously appointed and it is not practicable to notify the appointment before the hearing is held, the appointed person holding the hearing must, at its commencement, announce their name and the fact of their appointment.

**Appointment of assessor**

**28.** Where the Welsh Ministers appoint an assessor under paragraph 6 of Schedule 6 to the Planning Act, paragraph 6 of Schedule 3 to the Listed Buildings Act or paragraph 6 of the Schedule to the Hazardous Substances Act, they must notify the appellant, the local planning authority and any person invited to take part in the hearing of the name of the assessor and of the matters on which the assessor is to advise the appointed person.

**Date, place and notification of hearing**

**29.**—(1) The Welsh Ministers must fix the date for the hearing which must be no later than 4 weeks after the end of the representation period.

(2) Where the Welsh Ministers consider it impracticable for the hearing to be held on a date fixed in accordance with paragraph (1), the date for the hearing must be the earliest date which the Welsh Ministers consider is practicable.

(3) Where the Welsh Ministers are satisfied, having regard to the nature of the appeal, that it is reasonable to do so, the Welsh Ministers may direct that different parts of a hearing are held at different locations.

(4) The Welsh Ministers must give at least 4 weeks' written notice of the date, time and place fixed for the hearing to—

(a) the appellant;

(b) the local planning authority; and

(c) any person invited to take part in the hearing.

(5) The written notice under paragraph (4) must identify the matters to be determined at the hearing and name the appointed person.

(6) Caiff Gweinidogion Cymru amrywio'r dyddiad a bennir ar gyfer y gwrandawiad, pa un a yw'r dyddiad fel y'i hamrywir o fewn y cyfnod o 4 wythnos a grybwyllir ym mharagraff (1) ai peidio, ac mae paragraff (4) yn gymwys i amrywiad o ran dyddiad fel y mae'n gymwys i'r dyddiad a bennwyd yn wreiddiol.

(7) Caiff Gweinidogion Cymru amrywio amser neu leoliad y gwrandawiad a rhaid iddynt roi'r fath hysbysiad o unrhyw amrywiad yr ymddengys yn rhesymol iddynt hwy.

(8) Pan dynnir apêl yn ôl ar ôl rhoi hysbysiad ynghylch y gwrandawiad, rhaid i Weinidogion Cymru roi'r fath hysbysiad ynghylch canslo'r gwrandawiad fel yr ymddengys yn rhesymol iddynt hwy.

**Hysbysiad cyhoeddus ynghylch gwrandawiad**

**30.**—(1) Caiff Gweinidogion Cymru ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod cynllunio lleol gymryd un neu ragor o'r camau a ganlyn——

(a) dim llai na 2 wythnos cyn y dyddiad a bennir ar gyfer y gwrandawiad, gosod hysbysiad ynghylch y gwrandawiad, a chynnal yr hysbysiad hwnnw—

(i) mewn man amlwg, neu mor agos ag y bo'n rhesymol ymarferol at y tir y mae'r apêl yn ymwneud ag ef;

(ii) mewn un neu ragor o fannau lle y gosodir hysbysiadau cyhoeddus fel arfer yn yr ardal lle y mae'r tir y mae'r apêl yn ymwneud ag ef wedi ei leoli;

(b) dim llai na 2 wythnos cyn y dyddiad a bennir ar gyfer y gwrandawiad, cyhoeddi hysbysiad ynghylch y gwrandawiad drwy hysbyseb leol yn yr ardal lle y mae'r tir y mae'r apêl yn ymwneud ag ef wedi ei leoli;

(c) anfon hysbysiad ynghylch y gwrandawiad at y fath bersonau neu ddosbarthiadau o bersonau a bennir ganddynt, o fewn y fath gyfnod a bennir ganddynt.

(2) Pan fo cyfarwyddyd o dan reoliad 29(3) wedi ei roi, mae paragraff (1) yn cael effaith, gan roi—

(a) yn lle cyfeiriadau at y gwrandawiad, gyfeiriadau at y rhan o'r gwrandawiad sydd i'w chynnal mewn man a bennir yn y cyfarwyddyd; a

(b) yn lle cyfeiriadau at yr apêl, gyfeiriadau at y rhan honno o'r apêl sydd i fod yn destun y rhan honno o'r gwrandawiad.

(3) Rhaid i unrhyw hysbysiad a osodir o dan baragraff (1)(a) fod yn weladwy yn rhwydd i'r cyhoedd, ac yn ddarllenadwy yn rhwydd ganddynt hwy.

(6) The Welsh Ministers may vary the date fixed for the hearing, whether or not the date as varied is within the period of 4 weeks mentioned in paragraph (1), and paragraph (4) applies to a variation of a date as it applies to the date originally fixed.

(7) The Welsh Ministers may vary the time or place for the hearing and must give such notice of any variation as appears to them to be reasonable.

(8) Where an appeal is withdrawn after notice of the hearing has been given, the Welsh Ministers must give such notice of the cancellation of the hearing as appears to them to be reasonable.

**Public notice of hearing**

**30.**—(1) The Welsh Ministers may require the local planning authority to take one or more of the following steps——

(a) not less than 2 weeks before the date fixed for the hearing, post and maintain a notice of the hearing—

(i) in a conspicuous place, or as close as is reasonably practicable to the land to which the appeal relates;

(ii) in one or more places where public notices are usually posted in the area in which the land to which the appeal relates is situated;

(b) not less than 2 weeks before the date fixed for the hearing, publish a notice of the hearing by local advertisement in the area in which the land to which the appeal relates is situated;

(c) send a notice of the hearing to such persons or classes of persons as they may specify, within such period as they may specify.

(2) Where a direction has been given under regulation 29(3), paragraph (1) has effect with the substitution—

(a) for references to the hearing, with references to the part of the hearing which is to be held at a place specified in the direction; and

(b) for references to the appeal, with references to that part of the appeal which is to be the subject of that part of the hearing.

(3) Any notice posted under paragraph (1)(a) must be readily visible to, and legible by, members of the public.

(4) Pan fo'r hysbysiad yn cael ei symud ymaith, ei guddio neu ei ddifwyno cyn cychwyn y gwrandawiad, heb unrhyw fai ar yr awdurdod cynllunio lleol neu heb unrhyw fwriad ganddynt hwy i wneud hynny, nid yw'r awdurdod cynllunio lleol am y rheswm hwnnw i'w drin fel pe bai wedi methu â chydymffurfio â gofynion paragraff (3) os yw'r awdurdod cynllunio lleol wedi cymryd camau rhesymol i ddiogelu'r hysbysiad, a gosod un arall yn ei le os oes angen.

(5) Rhaid i hysbysiad ynghylch gwrandawiad a osodir, a gyhoeddir neu a anfonir o dan baragraff (1) gynnwys—

(a) datganiad o ddyddiad, amser a lleoliad y gwrandawiad ac o'r pwerau sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i benderfynu'r apêl;

(b) disgrifiad ysgrifenedig o'r tir sy'n ddigonol i nodi'n fras ei leoliad;

(c) disgrifiad cryno o destun yr apêl; a

(d) manylion ynghylch lle a phryd y gellir gweld copïau o'r cais sy'n destun yr apêl, yr holiadur a gwblhawyd gan yr awdurdod cynllunio lleol a'r holl ddogfennau eraill a anfonir gan yr awdurdod ac a gaiff eu copïo iddo o dan y Rheoliadau hyn.

**Cymryd rhan mewn gwrandawiad**

**31.**—(1) Y personau a gaiff gymryd rhan mewn gwrandawiad yw—

(a) yr apelydd;

(b) yr awdurdod cynllunio lleol;

(c) unrhyw berson a wahoddir i gymryd rhan gan Weinidogion Cymru.

(2) Nid oes dim ym mharagraff (1) yn atal Gweinidogion Cymru rhag caniatáu i unrhyw berson arall gymryd rhan mewn gwrandawiad.

(3) Caiff unrhyw berson sy'n cymryd rhan wneud hynny ar ei ran ei hun neu gael ei gynrychioli gan unrhyw berson arall.

**Absenoldeb, gohirio etc.**

**32.**—(1) Caiff Gweinidogion Cymru fwrw ymlaen â gwrandawiad yn absenoldeb yr apelydd, yr awdurdod cynllunio lleol ac unrhyw berson a wahoddir i gymryd rhan.

(2) Caiff Gweinidogion Cymru o bryd i'w gilydd ohirio gwrandawiad ac, os cyhoeddir dyddiad, amser a lleoliad gwrandawiad gohiriedig yn y gwrandawiad cyn y gohiriad, nid yw'n ofynnol rhoi unrhyw hysbysiad pellach.

(4) Where, without any fault or intention of the local planning authority, the notice is removed, obscured or defaced before the commencement of the hearing, the local planning authority is not for that reason to be treated as having failed to comply with the requirements of paragraph (3) if the local planning authority has taken reasonable steps for the protection of the notice and, if need be, its replacement.

(5) A notice of a hearing posted, published or sent under paragraph (1) must contain—

(a) a statement of the date, time and place of the hearing and of the powers enabling the Welsh Ministers to determine the appeal;

(b) a written description of the land sufficient to identify approximately its location;

(c) a brief description of the subject matter of the appeal; and

(d) details of the place where and when copies of the application which is the subject of the appeal, the local planning authority's completed questionnaire and all other documents sent by and copied to the authority under these Regulations can be inspected.

**Participation in a hearing**

**31.**—(1) The persons who may take part in a hearing are—

(a) the appellant;

(b) the local planning authority;

(c) any person invited to take part by the Welsh Ministers.

(2) Nothing in paragraph (1) precludes the Welsh Ministers from permitting any other person to take part in a hearing.

(3) Any person who takes part may do so on their own behalf or be represented by any other person.

**Absence, adjournment etc.**

**32.**—(1) The Welsh Ministers may proceed with a hearing in the absence of the appellant, the local planning authority and any person invited to take part.

(2) The Welsh Ministers may from time to time adjourn a hearing and, if the date, time and place of the adjourned hearing are announced at the hearing before the adjournment, no further notice is required.

**Y weithdrefn mewn gwrandawiad**

**33.**—(1) Y person penodedig sy'n llywyddu mewn unrhyw wrandawiad, a rhaid iddo bennu'r weithdrefn yn y gwrandawiad, yn ddarostyngedig i'r Rheoliadau hyn.

(2) Mae gwrandawiad i fod ar ffurf trafodaeth a arweinir gan y person penodedig, ac ni chaniateir croesholi.

(3) Pan fo'r person penodedig yn ystyried bod croesholi yn ofynnol, rhaid i'r person penodedig ystyried (ar ôl ymgynghori â'r apelydd) pa un a ddylid cau'r gwrandawiad a chynnal ymchwiliad yn lle hynny.

(4) Ar ddechrau'r gwrandawiad rhaid i'r person penodedig nodi'r materion y mae'r person penodedig yn gofyn am sylwadau arnynt yn y gwrandawiad.

(5) Caiff yr apelydd, yr awdurdod cynllunio lleol ac unrhyw berson a wahoddir i gymryd rhan mewn gwrandawiad alw am dystiolaeth.

(6) Caiff y person penodedig ganiatáu i unrhyw berson arall alw am dystiolaeth.

(7) Caiff y person penodedig wrthod caniatáu rhoi tystiolaeth neu gyflwyno tystiolaeth neu wrthod caniatáu cyflwyno unrhyw fater arall y mae'r person penodedig yn ystyried ei fod yn amherthnasol neu'n ailadroddus.

(8) Pan fo'r person penodedig yn gwrthod caniatáu rhoi tystiolaeth lafar, caiff y person sy'n dymuno rhoi'r dystiolaeth gyflwyno sylwadau ysgrifenedig i'r person penodedig cyn diwedd y gwrandawiad.

(9) Caiff y person penodedig—

(a) ei gwneud yn ofynnol i unrhyw berson sy'n cymryd rhan mewn gwrandawiad neu sy'n bresennol yno ac sydd, ym marn y person penodedig, yn ymddwyn mewn modd aflonyddgar, ymadael; a

(b) gwrthod caniatáu i'r person hwnnw ddychwelyd; neu

(c) dim ond caniatáu i'r person hwnnw ddychwelyd o dan y fath amodau a bennir gan y person penodedig.

(10) Caiff unrhyw berson y mae'n ofynnol iddo ymadael â gwrandawiad gyflwyno sylwadau ysgrifenedig i'r person penodedig cyn diwedd y gwrandawiad.

(11) Caiff y person penodedig gymryd i ystyriaeth unrhyw sylw ysgrifenedig neu unrhyw ddogfen arall a ddaw i law'r person penodedig oddi wrth unrhyw berson cyn dechrau'r gwrandawiad neu yn ystod y gwrandawiad ar yr amod bod y person penodedig yn datgelu hynny yn y gwrandawiad.

**Procedure at hearing**

**33.**—(1) The appointed person presides at any hearing and must determine the procedure at the hearing, subject to these Regulations.

(2) A hearing is to take the form of a discussion led by the appointed person and cross-examination is not to be permitted.

(3) Where the appointed person considers that cross-examination is required the appointed person must consider (after consulting the appellant) whether the hearing should be closed and an inquiry held instead.

(4) At the start of the hearing the appointed person must identify the matters on which the appointed person requires representations at the hearing.

(5) The appellant, the local planning authority and any person invited to take part in a hearing may call evidence.

(6) The appointed person may permit any other person to call evidence.

(7) The appointed person may refuse to permit the giving or production of evidence or presentation of any other matter which the appointed person considers to be irrelevant or repetitious.

(8) Where the appointed person refuses to permit the giving of oral evidence, the person wishing to give the evidence may submit to the appointed person representations in writing before the close of the hearing.

(9) The appointed person may—

(a) require any person taking part in, or present at, a hearing who, in the appointed person's opinion, is behaving in a disruptive manner to leave; and

(b) refuse to permit that person to return; or

(c) permit that person to return only on such conditions as the appointed person may specify.

(10) Any person required to leave a hearing may submit to the appointed person representations in writing before the close of the hearing.

(11) The appointed person may take into account any written representation or any other document received by the appointed person from any person before a hearing opens or during the hearing provided the appointed person discloses it at the hearing.

(12) Caiff y person penodedig wahodd unrhyw berson sy'n cymryd rhan yn y gwrandawiad i wneud cyflwyniadau cloi, a rhaid i unrhyw berson sy'n gwneud hynny ddarparu copi ysgrifenedig o'i gyflwyniadau cloi i'r person penodedig cyn diwedd y gwrandawiad.

(13) Caiff y person penodedig ganiatáu i unrhyw berson wneud sylwadau llafar yn y gwrandawiad.

(14) Caiff unrhyw berson sydd â'r hawl i wneud sylwadau llafar neu y caniateir iddo wneud sylwadau llafar mewn gwrandawiad wneud hynny ar ei ran ei hun neu gael ei gynrychioli gan berson arall.

**Gwrandawiad yn amhriodol**

**34.**—(1) Ar unrhyw adeg cyn y penderfynir ar apêl, caiff Gweinidogion Cymru benderfynu nad yw'r gweithdrefnau a nodir yn y Rhan hon yn addas ar gyfer yr apêl honno mwyach.

(2) Pan wneir y fath benderfyniad, rhaid i Weinidogion Cymru hysbysu'r apelydd a'r awdurdod cynllunio lleol yn ysgrifenedig—

(a) bod yr apêl i'w throsglwyddo o'r gweithdrefnau yn y Rhan hon o'r Rheoliadau hyn; a

(b) y bydd yr apêl yn mynd rhagddi yn unol â Rhan 6 o'r Rheoliadau hyn neu drwy achosion cyfunol i'r fath raddau y caiff Gweinidogion Cymru eu pennu gan roi sylw i unrhyw gamau a gymerwyd eisoes mewn perthynas â'r achosion hynny.

# RHAN 6

Ymchwiliadau

**Cymhwyso Rhan 6**

**35.**—(1) Mae'r Rhan hon yn gymwys—

(a) pan fo hysbysiad o apêl wedi dod i law; a

(b) pan fo Gweinidogion Cymru yn penderfynu bod yr apêl i'w hystyried yn llwyr neu'n rhannol ar sail ymchwiliad.

(2) Mae'r Rhan hon hefyd yn gymwys—

(a) pan fo Gweinidogion Cymru wedi penderfynu bod yr apêl gyfan, neu ran ohoni, i'w hystyried ar sail sylwadau ysgrifenedig neu wrandawiad; a

(b) pan fo Gweinidogion Cymru wedi hynny yn amrywio'r penderfyniad hwnnw fel bod yr apêl, neu rannau ohoni, i'w hystyried ar sail ymchwiliad,

(12) The appointed person may invite any person taking part in the hearing to make closing submissions and any person doing so must before the close of the hearing provide the appointed person with a copy of their closing submissions in writing.

(13) The appointed person may permit any person to make oral representations at the hearing.

(14) Any person entitled or permitted to make oral representations at a hearing may do so on their own behalf or be represented by another person.

**Hearing inappropriate**

**34.**—(1) At any time before an appeal is determined, the Welsh Ministers may determine that the procedures set out in this Part are no longer suitable for that appeal.

(2) Where such a determination is made the Welsh Ministers must notify the appellant and the local planning authority in writing that—

(a) the appeal is to be transferred from the procedures in this Part of these Regulations; and

(b) the appeal will proceed in accordance with Part 6 of these Regulations or by means of combined proceedings to such extent as the Welsh Ministers may specify having regard to any steps already taken in relation to those proceedings.

# PART 6

Inquiries

**Application of Part 6**

**35.**—(1) This Part applies where—

(a) notice of appeal has been received; and

(b) the Welsh Ministers determine that the appeal is to be considered in whole or in part on the basis of an inquiry.

(2) This Part also applies where—

(a) the Welsh Ministers have made a determination that all or part of the appeal is to be considered on the basis of written representations or a hearing; and

(b) they subsequently vary that determination such that the appeal or parts of the appeal is or are to be considered on the basis of an inquiry,

i'r fath raddau y caiff Gweinidogion Cymru eu pennu gan roi sylw i unrhyw gamau a gymerwyd eisoes mewn perthynas â'r apêl.

### Hysbysiad ynghylch enw'r person penodedig

**36.**—(1) Rhaid i Weinidogion Cymru roi hysbysiad ynghylch enw'r person penodedig i bob person a wahoddir i gymryd rhan yn yr ymchwiliad.

(2) Pan fo Gweinidogion Cymru yn penodi person arall yn lle'r person a benodwyd yn flaenorol ac nad yw'n ymarferol rhoi hysbysiad ynghylch y penodiad cyn y cynhelir yr ymchwiliad, rhaid i'r person penodedig sy'n cynnal yr ymchwiliad, ar gychwyn yr ymchwiliad hwnnw, gyhoeddi ei enw a'r ffaith ei fod wedi ei benodi.

### Penodi asesydd

**37.** Pan fo Gweinidogion Cymru yn penodi asesydd o dan baragraff 6 o Atodlen 6 i'r Ddeddf Gynllunio, paragraff 6 o Atodlen 3 i'r Ddeddf Adeiladau Rhestredig neu baragraff 6 o'r Atodlen i'r Ddeddf Sylweddau Peryglus, rhaid iddynt hysbysu'r apelydd, yr awdurdod cynllunio lleol ac unrhyw berson a wahoddir i gymryd rhan yn yr ymchwiliad ynghylch enw'r asesydd ac ynghylch y materion y mae'r asesydd i gynghori'r person penodedig yn eu cylch.

### Cymryd rhan mewn ymchwiliad

**38.**—(1) Y personau a gaiff gymryd rhan mewn ymchwiliad yw—

(a) yr apelydd;

(b) yr awdurdod cynllunio lleol;

(c) unrhyw berson a wahoddir i gymryd rhan gan Weinidogion Cymru.

(2) Nid oes dim ym mharagraff (1) yn atal Gweinidogion Cymru rhag caniatáu i unrhyw berson arall gymryd rhan mewn ymchwiliad.

(3) Caiff unrhyw berson sy'n cymryd rhan wneud hynny ar ei ran ei hun neu gael ei gynrychioli gan unrhyw berson arall.

### Absenoldeb, gohirio etc.

**39.**—(1) Caiff Gweinidogion Cymru fwrw ymlaen ag ymchwiliad yn absenoldeb yr apelydd, yr awdurdod cynllunio lleol ac unrhyw bersonau a wahoddir i gymryd rhan.

(2) Caiff Gweinidogion Cymru o bryd i'w gilydd ohirio ymchwiliad ac, os cyhoeddir dyddiad, amser a lleoliad yr ymchwiliad gohiriedig yn yr ymchwiliad cyn y gohiriad, nid yw'n ofynnol rhoi unrhyw hysbysiad pellach.

to such extent as the Welsh Ministers may specify having regard to any steps already taken in relation to the appeal.

### Notification of name of appointed person

**36.**—(1) The Welsh Ministers must notify the name of the appointed person to every person invited to take part in the inquiry.

(2) Where the Welsh Ministers appoint another person instead of the person previously appointed and it is not practicable to notify the appointment before the inquiry is held, the appointed person holding the inquiry must, at its commencement, announce their name and the fact of their appointment.

### Appointment of assessor

**37.** Where the Welsh Ministers appoint an assessor under paragraph 6 of Schedule 6 to the Planning Act, paragraph 6 of Schedule 3 to the Listed Buildings Act or paragraph 6 of the Schedule to the Hazardous Substances Act, they must notify the appellant, the local planning authority and any person invited to take part in the inquiry of the name of the assessor and of the matters on which the assessor is to advise the appointed person.

### Participation in an inquiry

**38.**—(1) The persons who may take part in an inquiry are—

(a) the appellant;

(b) the local planning authority;

(c) any person invited to take part by the Welsh Ministers.

(2) Nothing in paragraph (1) precludes the Welsh Ministers from permitting any other person to take part in an inquiry.

(3) Any person who takes part may do so on their own behalf or be represented by any other person.

### Absence, adjournment etc.

**39.**—(1) The Welsh Ministers may proceed with an inquiry in the absence of the appellant, the local planning authority and any persons invited to take part.

(2) The Welsh Ministers may from time to time adjourn an inquiry and, if the date, time and place of the adjourned inquiry are announced at the inquiry before the adjournment, no further notice is required.

### Cyfarfodydd rhagymchwiliad

**40.**—(1) Caiff y person penodedig gynnal cyfarfod rhagymchwiliad cyn ymchwiliad i ystyried yr hyn y caniateir ei wneud gyda'r nod o sicrhau y cynhelir yr ymchwiliad yn effeithlon ac yn hwylus.

(2) Rhaid i berson penodedig roi hysbysiad ysgrifenedig o ddim llai na 2 wythnos ynghylch cyfarfod rhagymchwiliad y mae'r person penodedig yn bwriadu ei gynnal o dan baragraff (1) i—

(a) yr apelydd;

(b) yr awdurdod cynllunio lleol;

(c) unrhyw berson a wahoddir i gymryd rhan yn y cyfarfod rhagymchwiliad.

(3) Pan fo cyfarfod rhagymchwiliad wedi ei gynnal o dan baragraff (1), caiff y person penodedig gynnal cyfarfod rhagymchwiliad pellach a rhaid iddo drefnu i'r fath hysbysiad gael ei roi ynghylch cyfarfod rhagymchwiliad pellach ag yr ymddengys yn angenrheidiol.

(4) Y person penodedig—

(a) sydd i lywyddu mewn unrhyw gyfarfod rhagymchwiliad;

(b) sydd i benderfynu ar y materion sydd i'w trafod a phennu'r weithdrefn sydd i'w dilyn;

(c) caiff ei gwneud yn ofynnol i unrhyw berson sy'n bresennol mewn cyfarfod rhagymchwiliad ac sydd, ym marn y person penodedig, yn ymddwyn mewn modd aflonyddgar, ymadael;

(d) caiff wrthod caniatáu i'r person hwnnw ddychwelyd neu fynychu unrhyw gyfarfod rhagymchwiliad pellach, neu

(e) caiff ganiatáu i'r person hwnnw ddychwelyd neu fynychu o dan y fath amodau a bennir gan y person penodedig yn unig.

### Amserlen ymchwiliad

**41.**—(1) Caiff y person penodedig lunio amserlen ar gyfer yr achosion mewn cysylltiad ag ymchwiliadau a chaiff wneud hynny mewn ymchwiliad, neu mewn rhan o ymchwiliad.

(2) Caiff y person penodedig, ar unrhyw adeg, amrywio'r amserlen a drefnwyd o dan baragraff (1).

(3) Caiff y person penodedig bennu mewn amserlen a drefnwyd o dan y rheoliad hwn ddyddiad erbyn pryd y mae'n rhaid i unrhyw ddatganiad tystiolaeth a chrynodeb ysgrifenedig a anfonir yn unol â rheoliad 44 gael eu hanfon at Weinidogion Cymru.

### Pre-inquiry meetings

**40.**—(1) The appointed person may hold a pre-inquiry meeting prior to an inquiry to consider what may be done with a view to securing that the inquiry is conducted efficiently and expeditiously.

(2) An appointed person must give not less than 2 weeks' written notice of a pre-inquiry meeting which the appointed person proposes to hold under paragraph (1) to—

(a) the appellant;

(b) the local planning authority;

(c) any person invited to take part at the pre-inquiry meeting.

(3) Where a pre-inquiry meeting has been held under paragraph (1), the appointed person may hold a further pre-inquiry meeting and must arrange for such notice to be given of a further pre-inquiry meeting as appears necessary.

(4) The appointed person—

(a) is to preside at any pre-inquiry meeting;

(b) is to determine the matters to be discussed and the procedure to be followed;

(c) may require any person present at the pre-inquiry meeting who, in the appointed person's opinion, is behaving in a disruptive manner to leave;

(d) may refuse to permit that person to return or to attend any further pre-inquiry meeting, or

(e) may permit that person to return or attend only on such conditions as the appointed person may specify.

### Inquiry timetable

**41.**—(1) The appointed person may prepare a timetable for the proceedings in respect of inquiries and may do so at, or at part of, an inquiry.

(2) The appointed person may, at any time, vary the timetable arranged under paragraph (1).

(3) The appointed person may specify in a timetable arranged under this regulation a date by which any written statement of evidence and summary sent in accordance with regulation 44 must be sent to the Welsh Ministers.

**Dyddiad ymchwiliad, lleoliad ymchwiliad a hysbysiad ynghylch ymchwiliad**

**42.**—(1) Rhaid i Weinidogion Cymru bennu'r dyddiad ar gyfer yr ymchwiliad, a rhaid i'r dyddiad hwnnw fod yn ddim hwyrach na—

(a) 12 wythnos ar ôl diwedd y cyfnod sylwadau; neu

(b) (os yw'n hwyrach) mewn achos pan gynhelir cyfarfod rhagymchwiliad o dan reoliad 40(1), 4 wythnos ar ôl diwedd y cyfarfod hwnnw (neu'r fath gyfnod byrrach ar ôl diwedd y cyfarfod hwnnw y caiff yr apelydd, yr awdurdod cynllunio lleol a'r person penodedig gytuno arno).

(2) Pan fo Gweinidogion Cymru yn ystyried nad yw'n ymarferol cynnal yr ymchwiliad ar ddyddiad a bennir yn unol â pharagraff (1), rhaid i ddyddiad yr ymchwiliad fod y dyddiad cynharaf y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried ei fod yn ymarferol.

(3) Pan fo Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni, gan roi sylw i natur y cais, ei bod yn rhesymol gwneud hynny, caiff Gweinidogion Cymru roi cyfarwyddyd bod rhannau gwahanol o ymchwiliad i'w cynnal mewn lleoliadau gwahanol.

(4) Rhaid i Weinidogion Cymru roi o leiaf 4 wythnos o hysbysiad ysgrifenedig o'r dyddiad, yr amser a'r lleoliad a bennir ganddynt hwy ar gyfer yr ymchwiliad i—

(a) yr apelydd;

(b) yr awdurdod cynllunio lleol; ac

(c) unrhyw berson a wahoddir i gymryd rhan yn yr ymchwiliad.

(5) Rhaid i'r hysbysiad ysgrifenedig o dan baragraff (4) nodi'r materion sydd i'w penderfynu yn yr ymchwiliad ac enw'r person penodedig.

(6) Caiff Gweinidogion Cymru amrywio'r dyddiad a bennir ar gyfer yr ymchwiliad, pa un a yw'r dyddiad fel y'i hamrywir o fewn y cyfnod o 12 wythnos a grybwyllir ym mharagraff (1) ai peidio, ac mae paragraff (4) yn gymwys i amrywiad o ran dyddiad fel yr oedd yn gymwys i'r dyddiad a bennwyd yn wreiddiol.

(7) Caiff Gweinidogion Cymru amrywio'r amser neu'r lleoliad a bennir ar gyfer yr ymchwiliad a rhaid iddynt roi'r fath hysbysiad ynghylch unrhyw amrywiad ag yr ymddengys yn rhesymol iddynt hwy.

(8) Pan dynnir apêl yn ôl ar ôl rhoi hysbysiad ynghylch yr ymchwiliad, rhaid i Weinidogion Cymru roi'r fath hysbysiad ynghylch canslo'r gwrandawiad ag yr ymddengys yn rhesymol iddynt hwy.

**Date, place and notification of inquiry**

**42.**—(1) The Welsh Ministers must fix the date for the inquiry which must be no later than—

(a) 12 weeks after the end of the representation period; or

(b) (if later) in a case where a pre-inquiry meeting is held under regulation 40(1), 4 weeks after the conclusion of that meeting (or such shorter period after the conclusion of that meeting as the appellant, the local planning authority and the appointed person may agree).

(2) Where the Welsh Ministers consider it impracticable for the inquiry to be held on a date fixed in accordance with paragraph (1), the date for the inquiry must be the earliest date which the Welsh Ministers consider is practicable.

(3) Where the Welsh Ministers are satisfied, having regard to the nature of the application, that it is reasonable to do so, the Welsh Ministers may direct that different parts of an inquiry are held at different locations.

(4) The Welsh Ministers must give at least 4 weeks' written notice of the date, time and place fixed by them for the inquiry to—

(a) the appellant;

(b) the local planning authority; and

(c) any person invited to take part in the inquiry.

(5) The written notice under paragraph (4) must identify the matters to be determined at the inquiry and name the appointed person.

(6) The Welsh Ministers may vary the date fixed for the inquiry, whether or not the date as varied is within the period of 12 weeks mentioned in paragraph (1), and paragraph (4) applies to a variation of a date as it applies to the date originally fixed.

(7) The Welsh Ministers may vary the time or place for the inquiry and must give such notice of any variation as appears to them to be reasonable.

(8) Where an appeal is withdrawn after notice of the inquiry has been given, the Welsh Ministers must give such notice of the cancellation of the inquiry as appears to them to be reasonable.

**Hysbysiad cyhoeddus ynghylch ymchwiliad**

**43.**—(1) Caiff Gweinidogion Cymru ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod cynllunio lleol gymryd un neu ragor o'r camau a ganlyn—

(a) dim llai na 2 wythnos cyn y dyddiad a bennir ar gyfer yr ymchwiliad, gosod hysbysiad ynghylch yr ymchwiliad, a chynnal yr hysbysiad hwnnw—

(i) mewn man amlwg, neu mor agos ag y bo'n rhesymol ymarferol at y tir y mae'r apêl yn ymwneud ag ef;

(ii) mewn un neu ragor o fannau lle y gosodir hysbysiadau cyhoeddus fel arfer yn yr ardal lle y mae'r tir y mae'r apêl yn ymwneud ag ef wedi ei leoli;

(b) dim llai na 2 wythnos cyn y dyddiad a bennir ar gyfer yr ymchwiliad, cyhoeddi hysbysiad ynghylch yr ymchwiliad drwy hysbyseb leol yn yr ardal lle y mae'r tir y mae'r apêl yn ymwneud ag ef wedi ei leoli;

(c) anfon hysbysiad ynghylch y gwrandawiad at y fath bersonau neu ddosbarthiadau o bersonau a bennir ganddynt, o fewn y fath gyfnod a bennir ganddynt.

(2) Pan roddir cyfarwyddyd o dan reoliad 42(3), mae paragraff (1) yn cael effaith, gan roi—

(a) yn lle cyfeiriadau at yr ymchwiliad, gyfeiriadau at y rhan o'r ymchwiliad sydd i'w chynnal mewn man a bennir yn y cyfarwyddyd; a

(b) yn lle cyfeiriadau at yr apêl, gyfeiriadau at y rhan honno o'r apêl a fydd yn destun y rhan honno o'r ymchwiliad.

(3) Rhaid i unrhyw hysbysiad a osodir o dan baragraff (1)(a) fod yn weladwy yn rhwydd i'r cyhoedd, ac yn ddarllenadwy yn rhwydd ganddynt hwy.

(4) Pan fo'r hysbysiad yn cael ei symud ymaith, ei guddio neu ei ddifwyno cyn cychwyn yr ymchwiliad, heb unrhyw fai ar yr awdurdod cynllunio lleol neu heb unrhyw fwriad ganddynt hwy i wneud hynny, nid yw'r awdurdod cynllunio lleol am y rheswm hwnnw i'w drin fel pe bai wedi methu â chydymffurfio â gofynion paragraff (3) os yw'r awdurdod cynllunio lleol wedi cymryd camau rhesymol i ddiogelu'r hysbysiad, a gosod un arall yn ei le os oes angen.

(5) Rhaid i hysbysiad ynghylch ymchwiliad a osodir, a gyhoeddir neu a anfonir o dan baragraff (1) gynnwys—

(a) datganiad o ddyddiad, amser a lleoliad yr ymchwiliad ac o'r pwerau sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i benderfynu'r apêl;

**Public notice of inquiry**

**43.**—(1) The Welsh Ministers may require the local planning authority to take one or more of the following steps—

(a) not less than 2 weeks before the date fixed for the inquiry, post and maintain a notice of the inquiry—

(i) in a conspicuous place, or as close as is reasonably practicable to the land to which the appeal relates;

(ii) in one or more places where public notices are usually posted in the area in which the land to which the appeal relates is situated;

(b) not less than 2 weeks before the date fixed for the inquiry, publish a notice of the inquiry by local advertisement in the area in which the land to which the appeal relates is situated;

(c) send a notice of the hearing to such persons or classes of persons as they may specify, within such period as they may specify.

(2) Where a direction has been given under regulation 42(3), paragraph (1) has effect with the substitution—

(a) for references to the inquiry, with references to the part of the inquiry which is to be held at a place specified in the direction; and

(b) for references to the appeal, with references to that part of the appeal which is to be the subject of that part of the inquiry.

(3) Any notice posted under paragraph (1)(a) must be readily visible to, and legible by, members of the public.

(4) Where, without any fault or intention of the local planning authority, the notice is removed, obscured or defaced before the commencement of the inquiry, the local planning authority is not for that reason to be treated as having failed to comply with the requirements of paragraph (3) if the local planning authority has taken reasonable steps for the protection of the notice and, if need be, its replacement.

(5) A notice of an inquiry posted, published or sent under paragraph (1) must contain—

(a) a statement of the date, time and place of the inquiry and of the powers enabling the Welsh Ministers to determine the appeal;

(b) disgrifiad ysgrifenedig o'r tir sy'n ddigonol i nodi'n fras ei leoliad;

(c) disgrifiad cryno o destun yr apêl; a

(d) manylion ynghylch lle a phryd y gellir gweld copïau o'r cais sy'n destun yr apêl, yr holiadur a gwblhawyd gan yr awdurdod cynllunio lleol a'r holl ddogfennau eraill a anfonir i'r awdurdod ac a gaiff eu copïo iddo o dan y Rheoliadau hyn.

(b) a written description of the land sufficient to identify approximately its location;

(c) a brief description of the subject matter of the appeal; and

(d) details of the place where and when copies of the application which is the subject of the appeal, the local planning authority's completed questionnaire and all other documents sent by and copied to the authority under these Regulations can be inspected.

**Datganiadau tystiolaeth ysgrifenedig**

**44.**—(1) Os yw'r apelydd, yr awdurdod cynllunio lleol neu unrhyw berson a wahoddir i gymryd rhan yn yr ymchwiliad yn bwriadu rhoi tystiolaeth yn yr ymchwiliad drwy ddarllen datganiad ysgrifenedig, neu'n bwriadu galw person arall i roi tystiolaeth felly—

(a) rhaid i'r apelydd anfon un copi o'r datganiad, ynghyd â chrynodeb ysgrifenedig, i'r awdurdod cynllunio lleol;

(b) rhaid i'r awdurdod cynllunio lleol anfon un copi o'r datganiad, ynghyd â chrynodeb ysgrifenedig, at yr apelydd;

(c) rhaid i'r apelydd a'r awdurdod cynllunio lleol ar yr un pryd anfon un copi o'u datganiad, ynghyd â chrynodeb ysgrifenedig, at Weinidogion Cymru;

(d) rhaid i bob person a wahoddir i gymryd rhan yn yr ymchwiliad anfon un copi o'u datganiad, ynghyd â chrynodeb ysgrifenedig, at Weinidogion Cymru.

(2) Rhaid i Weinidogion Cymru, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl eu cael—

(a) anfon copi o ddatganiad tystiolaeth ysgrifenedig pob person a wahoddir i gymryd rhan yn yr ymchwiliad, ynghyd ag unrhyw grynodeb, i'r awdurdod cynllunio lleol; a

(b) anfon copi o bob datganiad tystiolaeth ysgrifenedig, ynghyd ag unrhyw grynodeb, at bob person a wahoddir i gymryd rhan yn yr ymchwiliad.

(3) Nid yw'n ofynnol cyflwyno unrhyw grynodeb ysgrifenedig pan na fo'r datganiad tystiolaeth y bwriedir ei ddarllen yn cynnwys mwy na 1,500 o eiriau.

(4) Rhaid i'r datganiad tystiolaeth ac unrhyw grynodeb ddod i law Gweinidogion Cymru yn ddim hwyrach na—

(a) 4 wythnos cyn y dyddiad a bennir ar gyfer yr ymchwiliad; neu

**Written statements of evidence**

**44.**—(1) If the appellant, the local planning authority or any person invited to take part in the inquiry propose to give, or to call another person to give, evidence at the inquiry by reading a written statement—

(a) the appellant must send one copy of the statement, together with a written summary, to the local planning authority;

(b) the local planning authority must send one copy of the statement, together with a written summary, to the appellant;

(c) the appellant and local planning authority must simultaneously send one copy of their statement, together with a written summary, to the Welsh Ministers;

(d) each person invited to take part in the inquiry must send one copy of their statement, together with a written summary, to the Welsh Ministers.

(2) The Welsh Ministers must, as soon as reasonably practicable after receipt—

(a) send a copy of the written statement of evidence, together with any summary, of each person invited to take part in the inquiry to the local planning authority; and

(b) send a copy of each written statement of evidence, together with any summary, to each person invited to take part in the inquiry.

(3) No written summary is required where the statement of evidence proposed to be read contains no more than 1,500 words.

(4) The statement of evidence and any summary must be received by the Welsh Ministers no later than—

(a) 4 weeks before the date fixed for the inquiry; or

(b) pan fo amserlen wedi ei llunio o dan reoliad 41, y dyddiad a bennir yn yr amserlen honno.

(5) Rhaid i Weinidogion Cymru anfon at y person penodedig, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl eu cael, unrhyw ddatganiad tystiolaeth, ynghyd ag unrhyw grynodeb, a anfonir atynt yn unol â'r rheoliad hwn ac a geir ganddynt hwy o fewn y cyfnod perthnasol, os oes un, a bennir yn y rheoliad hwn.

(6) Pan ddarperir crynodeb ysgrifenedig yn unol â pharagraff (1), dim ond y crynodeb hwnnw sydd i'w ddarllen yn yr ymchwiliad oni bai bod y person penodedig yn caniatáu fel arall neu'n ei gwneud yn ofynnol fel arall.

(7) Rhaid i unrhyw berson y mae'n ofynnol gan y rheoliad hwn iddo anfon copïau o ddatganiad tystiolaeth at Weinidogion Cymru eu hanfon gyda'r un nifer o gopïau o'r ddogfen gyfan y cyfeirir ati yn y datganiad, neu'r rhan berthnasol ohoni, oni bai bod copi o'r ddogfen neu'r rhan berthnasol o'r ddogfen dan sylw eisoes ar gael i'w gweld o dan reoliad 10.

**Y weithdrefn mewn ymchwiliad**

**45.**—(1) Y person penodedig sy'n llywyddu yn yr ymchwiliad a rhaid iddo bennu'r weithdrefn yn yr ymchwiliad, yn ddarostyngedig i'r Rheoliadau hyn.

(2) Ar ddechrau'r ymchwiliad rhaid i'r person penodedig nodi'r materion y mae'r person penodedig yn gofyn am sylwadau arnynt yn yr ymchwiliad.

(3) Caiff yr apelydd, yr awdurdod cynllunio lleol ac unrhyw berson a wahoddir i gymryd rhan mewn ymchwiliad alw am dystiolaeth.

(4) Caiff y person penodedig ganiatáu i unrhyw berson arall alw am dystiolaeth.

(5) Mae'r apelydd, yr awdurdod cynllunio lleol ac unrhyw bersonau a wahoddir i gymryd rhan yn yr ymchwiliad i gael gwrandawiad yn y fath drefn a gaiff ei phennu gan y person penodedig.

(6) Caiff yr apelydd, yr awdurdod cynllunio lleol ac unrhyw berson a wahoddir i gymryd rhan mewn ymchwiliad groesholi personau sy'n rhoi tystiolaeth ond, yn ddarostyngedig i'r uchod a pharagraffau (7) a (8), fel arall caniateir galw am dystiolaeth a chroesholi personau sy'n rhoi tystiolaeth yn ôl disgresiwn y person penodedig.

(7) Caiff y person penodedig wrthod caniatáu—

(a) rhoi neu gyflwyno tystiolaeth,

(b) croesholi personau sy'n rhoi tystiolaeth, neu

(c) cyflwyno unrhyw fater,

y mae'r person penodedig yn ystyried ei fod yn amherthnasol neu'n ailadroddus.

(b) where a timetable has been arranged under regulation 41, the date specified in that timetable.

(5) The Welsh Ministers must send to the appointed person, as soon as reasonably practicable after receipt, any statement of evidence together with any summary sent to them in accordance with this regulation and received by them within the relevant period, if any, specified in this regulation.

(6) Where a written summary is provided in accordance with paragraph (1), only that summary is to be read at the inquiry unless the appointed person permits or requires otherwise.

(7) Any person required by this regulation to send copies of a statement of evidence to the Welsh Ministers, must send with them the same number of copies of the whole, or the relevant part, of any document referred to in the statement, unless a copy of the document or relevant part of the document in question is already available for inspection under regulation 10.

**Procedure at inquiry**

**45.**—(1) The appointed person presides at the inquiry and must determine the procedure at the inquiry, subject to these Regulations.

(2) At the start of the inquiry the appointed person must identify the matters on which the appointed person requires representations at the inquiry.

(3) The appellant, the local planning authority and any person invited to take part in an inquiry may call evidence.

(4) The appointed person may permit any other person to call evidence.

(5) The appellant, local planning authority and any persons invited to take part in the inquiry are to be heard in such order as the appointed person may determine.

(6) The appellant, local planning authority and any person invited to take part in an inquiry may cross examine persons giving evidence but, subject to the foregoing and paragraphs (7) and (8), the calling of evidence and the cross examination of persons giving evidence are otherwise at the discretion of the appointed person.

(7) The appointed person may refuse to permit—

(a) the giving or production of evidence;

(b) the cross-examination of persons giving evidence; or

(c) the presentation of any matter,

which the appointed person considers to be irrelevant or repetitious.

(8) Pan fo person yn rhoi tystiolaeth mewn ymchwiliad drwy ddarllen crynodeb o'i ddatganiad tystiolaeth ysgrifenedig yn unol â rheoliad 44(6)—

(a) mae'r datganiad ysgrifenedig y cyfeirir ato yn rheoliad 44(1) i'w drin fel pe bai wedi ei gyflwyno fel tystiolaeth oni bai bod y person y mae'n ofynnol iddo ddarparu'r crynodeb yn hysbysu'r person penodedig am ddymuniad i ddibynnu ar gynnwys y crynodeb hwnnw yn unig; a

(b) mae'r person y mae ei dystiolaeth wedi ei chynnwys yn y datganiad ysgrifenedig i fod yn agored i'w groesholi ar y dystiolaeth honno i'r un graddau â phe bai'n dystiolaeth a roddwyd ar lafar.

(9) Pan fo'r person penodedig yn gwrthod caniatáu rhoi tystiolaeth lafar, caiff y person sy'n dymuno rhoi'r dystiolaeth gyflwyno'r dystiolaeth yn ysgrifenedig i'r person penodedig cyn diwedd yr ymchwiliad.

(10) Caiff y person penodedig—

(a) ei gwneud yn ofynnol i unrhyw berson sy'n cymryd rhan mewn ymchwiliad neu sy'n bresennol yno ac sydd, ym marn y person penodedig, yn ymddwyn mewn modd aflonyddgar, ymadael; a

(b) gwrthod caniatáu i'r person hwnnw ddychwelyd; neu

(c) dim ond caniatáu i'r person hwnnw ddychwelyd o dan y fath amodau a bennir gan y person penodedig.

(11) Caiff unrhyw berson y mae'n ofynnol iddo ymadael ag ymchwiliad gyflwyno sylwadau ysgrifenedig i'r person penodedig cyn diwedd yr ymchwiliad.

(12) Caiff y person penodedig roi cyfarwyddyd y darperir cyfleusterau i unrhyw berson sy'n cymryd rhan mewn ymchwiliad gymryd copïau o ddogfennau sydd ar gael i'w gweld gan y cyhoedd neu gael copïau o'r dogfennau hynny.

(13) Caiff y person penodedig gymryd i ystyriaeth unrhyw sylw ysgrifenedig neu unrhyw ddogfen arall a geir gan y person penodedig oddi wrth unrhyw berson cyn dechrau'r ymchwiliad neu yn ystod yr ymchwiliad ar yr amod bod y person penodedig yn datgelu hynny yn yr ymchwiliad.

(14) Caiff y person penodedig wahodd unrhyw berson sy'n cymryd rhan yn yr ymchwiliad i wneud sylwadau cloi.

(15) Rhaid i unrhyw berson sy'n gwneud sylwadau cloi ddarparu i'r person penodedig gopi ysgrifenedig o'r sylwadau hynny erbyn diwedd yr ymchwiliad.

(8) Where a person gives evidence at an inquiry by reading a summary of their written statement of evidence in accordance with regulation 44(6)—

(a) the written statement referred to in regulation 44(1) is to be treated as tendered in evidence unless the person required to provide the summary notifies the appointed person of a wish to rely on the contents of that summary alone; and

(b) the person whose evidence the written statement contains is to be open to cross examination on it to the same extent as if it were evidence that had been given orally.

(9) Where the appointed person refuses to permit the giving of oral evidence, the person wishing to give the evidence may submit the evidence in writing to the appointed person before the close of the inquiry.

(10) The appointed person may—

(a) require any person taking part in, or present at, an inquiry who, in the appointed person's opinion, is behaving in a disruptive manner to leave; and

(b) refuse to permit that person to return; or

(c) permit that person to return only on such conditions as the appointed person may specify.

(11) Any person required to leave an inquiry may submit to the appointed person representations in writing before the close of the inquiry.

(12) The appointed person may direct that facilities are afforded to any person taking part in an inquiry to take or obtain copies of documents that are open to public inspection.

(13) The appointed person may take into account any written representation or any other document received by the appointed person from any person before an inquiry opens or during the inquiry provided that the appointed person discloses it at the inquiry.

(14) The appointed person may invite any person taking part in the inquiry to make closing submissions.

(15) Any person who makes closing submissions must by the close of the inquiry provide the appointed person with a copy of those closing submissions in writing.

**Ymchwiliad yn amhriodol**

**46.**—(1) Ar unrhyw adeg cyn y penderfynir ar apêl, caiff Gweinidogion Cymru benderfynu nad yw'r gweithdrefnau a nodir yn y Rhan hon yn addas ar gyfer yr apêl honno mwyach.

(2) Pan wneir y fath benderfyniad, rhaid i Weinidogion Cymru hysbysu'r apelydd a'r awdurdod cynllunio lleol yn ysgrifenedig—

(a) bod yr apêl i'w throsglwyddo o'r gweithdrefnau yn y Rhan hon o'r Rheoliadau hyn; a

(b) y bydd yr apêl yn mynd rhagddi yn unol â Rhan 5 o'r Rheoliadau hyn neu drwy achosion cyfunol i'r fath raddau y caiff Gweinidogion Cymru eu pennu gan roi sylw i unrhyw gamau a gymerwyd eisoes mewn perthynas â'r achosion hynny.

**Inquiry inappropriate**

**46.**—(1) At any time before an appeal is determined, the Welsh Ministers may determine that the procedures set out in this Part are no longer suitable for that appeal.

(2) Where such a determination is made the Welsh Ministers must notify the appellant and the local planning authority in writing that—

(a) the appeal is to be transferred from the procedures in this Part of these Regulations; and

(b) the appeal will proceed in accordance with Part 5 of these Regulations or by means of combined proceedings to such extent as the Welsh Ministers may specify having regard to any steps already taken in relation to those proceedings.

# RHAN 7

## Y weithdrefn ar ôl sylwadau ysgrifenedig, gwrandawiadau, ymchwiliadau neu achosion cyfunol

### PENNOD 1

### Apelau a benderfynir gan Bersonau Penodedig yn dilyn sylwadau ysgrifenedig, gwrandawiadau, ymchwiliadau neu achosion cyfunol

**Y weithdrefn ar ôl achosion**

**47.**—(1) Rhaid i'r person penodedig lunio adroddiad ysgrifenedig ("yr adroddiad ar benderfyniad y person penodedig")—

(a) mewn perthynas ag apêl yr ymdrinnir â hi drwy sylwadau ysgrifenedig, pan fydd y person penodedig wedi ystyried y sylwadau ysgrifenedig; neu

(b) ar ôl diwedd y gwrandawiad, yr ymchwiliad neu'r achosion cyfunol.

(2) Rhaid i'r adroddiad ar benderfyniad y person penodedig gynnwys casgliadau'r person penodedig a'i benderfyniad ar yr apêl.

(3) Pan fo asesydd wedi ei benodi, rhaid i'r asesydd, ar ôl diwedd y gwrandawiad, yr ymchwiliad neu'r achosion cyfunol, lunio adroddiad ysgrifenedig mewn cysylltiad â'r materion y penodwyd yr asesydd i gynghori arnynt.

# PART 7

## Procedure after written representations, hearings, inquires or combined proceedings

### CHAPTER 1

### Appeals determined by appointed persons following written representations, hearings, inquiries or combined proceedings

**Procedure after proceedings**

**47.**—(1) The appointed person must make a report in writing ("the appointed person's decision report")—

(a) in relation to an appeal dealt with by means of written representations, when the appointed person has considered the written representations; or

(b) after the close of the hearing, inquiry or combined proceedings.

(2) The appointed person's decision report must include the appointed person's conclusions and decision on the appeal.

(3) Where an assessor has been appointed, the assessor must, after the close of the hearing, inquiry or combined proceedings make a report in writing to the appointed person in respect of the matters on which the assessor was appointed to advise.

(4) Pan fo asesydd yn llunio adroddiad yn unol â pharagraff (3), rhaid i'r adroddiad ar benderfyniad y person penodedig ddatgan i ba raddau y mae'r person penodedig yn cytuno neu'n anghytuno ag adroddiad yr asesydd a, phan fo'r person penodedig yn anghytuno â'r asesydd, rhaid iddo nodi'r rhesymau dros yr anghytuno hwnnw.

(5) Wrth wneud y penderfyniad, caiff y person penodedig ddiystyru—

(a) mewn perthynas ag apêl, neu ran o apêl, yr ymdrinnir â hi drwy sylwadau ysgrifenedig, unrhyw sylwadau ysgrifenedig sy'n dod i law y tu allan i'r terfynau amser perthnasol;

(b) unrhyw sylwadau ysgrifenedig, tystiolaeth neu unrhyw ddogfen arall sy'n dod i law ar ôl diwedd y gwrandawiad neu ymchwiliad.

(6) Mewn perthynas ag apêl neu ran o apêl yr ymdrinnir â hi drwy sylwadau ysgrifenedig, os yw'r person penodedig, ar ôl y terfynau amser perthnasol, yn bwriadu cymryd i ystyriaeth unrhyw dystiolaeth newydd neu unrhyw fater newydd o ffaith (nad yw'n fater o bolisi Gweinidogion Cymru) na chafodd ei chynnwys neu ei gynnwys yn y sylwadau ysgrifenedig ac y mae'r person penodedig yn ystyried ei bod neu ei fod yn berthnasol i'r penderfyniad, rhaid i'r person penodedig beidio â dod i benderfyniad heb yn gyntaf—

(a) hysbysu'r apelydd, yr awdurdod cynllunio lleol a phersonau â buddiant sydd wedi cyflwyno sylwadau ysgrifenedig; a

(b) rhoi cyfle i'r rheini a hysbysir o dan is-baragraff (a) gyflwyno sylwadau ysgrifenedig ar y dystiolaeth newydd neu'r mater newydd o ffaith.

(7) Os yw'r person penodedig, ar ôl diwedd y gwrandawiad neu'r ymchwiliad, yn bwriadu cymryd i ystyriaeth unrhyw dystiolaeth newydd neu unrhyw fater newydd o ffaith (nad yw'n fater o bolisi Gweinidogion Cymru) na chafodd ei chodi neu ei godi yn y gwrandawiad neu'r ymchwiliad ac y mae'r person penodedig yn ystyried ei bod neu ei fod yn berthnasol i'r penderfyniad, rhaid i'r person penodedig beidio â dod i benderfyniad heb yn gyntaf—

(a) hysbysu'r apelydd, yr awdurdod cynllunio lleol, y personau â buddiant a gyflwynodd sylwadau ysgrifenedig a'r personau a gymerodd ran yn y gwrandawiad neu'r ymchwiliad; a

(b) rhoi cyfle i'r rheini a hysbysir o dan is-baragraff (a) gyflwyno sylwadau ysgrifenedig ar y dystiolaeth newydd neu'r mater newydd o ffaith neu ofyn am ailagor y gwrandawiad neu'r ymchwiliad.

(4) Where an assessor makes a report in accordance with paragraph (3), the appointed person's decision report must state how far the appointed person agrees or disagrees with the assessor's report and, where the appointed person disagrees with the assessor, the reasons for that disagreement.

(5) When making the decision, the appointed person may disregard—

(a) in relation to an appeal, or part of an appeal dealt with by means of written representations, any written representations received outside the relevant time limits;

(b) any written representations, evidence or any other document received after the close of the hearing or inquiry.

(6) In relation to an appeal or part of an appeal dealt with by means of written representations, if after the relevant time limits, an appointed person proposes to take into consideration any new evidence or any new matter of fact (not being a matter of Welsh Ministers' policy) which was not included in the written representations and which the appointed person considers to be material to the decision, the appointed person must not come to a decision without first—

(a) notifying the appellant, the local planning authority and interested persons who made written representations; and

(b) affording those notified under subparagraph (a) an opportunity of making written representations upon the new evidence or new matter of fact.

(7) If, after the close of the hearing or inquiry, an appointed person proposes to take into consideration any new evidence or any new matter of fact (not being a matter of Welsh Ministers' policy) which was not raised at the hearing or inquiry and which the appointed person considers to be material to the decision, the appointed person must not come to a decision without first—

(a) notifying the appellant, the local planning authority, the interested persons who made written representations and the persons who took part in the hearing or inquiry; and

(b) affording those notified under subparagraph (a) an opportunity of making written representations upon the new evidence or new matter of fact or of asking for the re-opening of the hearing or inquiry.

(8) Rhaid i'r apelydd, yr awdurdod cynllunio lleol, y personau â buddiant a gyflwynodd sylwadau ysgrifenedig a'r personau a gymerodd ran yn y gwrandawiad neu'r ymchwiliad sicrhau bod sylwadau ysgrifenedig neu geisiadau i ailagor y gwrandawiad neu'r ymchwiliad a gyflwynir o dan baragraffau (6) a (7) yn dod i law Gweinidogion Cymru o fewn y cyfnod a bennir yn hysbysiad Gweinidogion Cymru o dan y paragraffau hynny.

(9) Caiff person penodedig, fel y gwêl y person penodedig orau, beri bod gwrandawiad neu ymchwiliad yn cael ei ailagor, a rhaid iddo wneud hynny os gofynnir iddo wneud hynny gan yr apelydd neu'r awdurdod cynllunio lleol o dan yr amgylchiadau a grybwyllir ym mharagraff (7), ac o fewn y cyfnod a bennir yn yr hysbysiad gan Weinidogion Cymru o dan baragraff (7).

(10) Pan fo gwrandawiad neu ymchwiliad yn cael ei ailagor—

(a) rhaid i'r person penodedig anfon at yr apelydd, yr awdurdod cynllunio lleol, y personau â buddiant a gyflwynodd sylwadau ysgrifenedig a'r personau a gymerodd ran yn y gwrandawiad neu'r ymchwiliad ddatganiad ysgrifenedig o'r materion y gwahoddir tystiolaeth bellach mewn cysylltiad â hwy;

(b) rhaid i dystiolaeth bellach a gyflwynir ar ôl gofyn amdani beidio â bod yn fwy na 3,000 o eiriau, a rhaid ei chyflwyno o fewn y cyfnod a bennir gan y person penodedig ac yn y dull a bennir ganddo; ac

(c) mae paragraffau (3) i (8) o reoliad 29, rheoliad 30, paragraffau (3) i (8) o reoliad 42 a rheoliad 43 yn gymwys fel pe bai'r cyfeiriadau at wrandawiad neu ymchwiliad yn gyfeiriadau at wrandawiad neu ymchwiliad a ailagorir.

PENNOD 2

Apelau a benderfynir gan Weinidogion Cymru yn dilyn sylwadau ysgrifenedig, gwrandawiadau, ymchwiliadau neu achosion cyfunol

**Y weithdrefn ar ôl achosion**

**48.**—(1) Rhaid i'r person penodedig lunio adroddiad ysgrifenedig i Weinidogion Cymru—

(a) mewn perthynas ag apêl yr ymdrinnir â hi drwy sylwadau ysgrifenedig, pan fydd y person penodedig wedi ystyried y sylwadau ysgrifenedig; neu

(b) ar ôl diwedd y gwrandawiad, yr ymchwiliad neu'r achosion cyfunol.

(8) The appellant, the local planning authority, the interested persons who made written representations and the persons who took part in the hearing or inquiry must ensure that written representations or requests to re-open the hearing or inquiry made under paragraphs (6) and (7) are received by the Welsh Ministers within the period specified in the Welsh Ministers' notification under those paragraphs.

(9) An appointed person may, as the appointed person thinks fit, cause a hearing or inquiry to be re-opened, and must do so if asked by the appellant or the local planning authority in the circumstances mentioned in paragraph (7) and within the period specified in the Welsh Ministers notification under paragraph (7).

(10) Where a hearing or inquiry is re-opened—

(a) the appointed person must send to the appellant, the local planning authority, the interested persons who made written representations and the persons who took part in the hearing or inquiry a written statement of the matters in respect of which further evidence is invited;

(b) further evidence submitted following a request must not exceed 3,000 words and must be submitted in the time and manner specified by the appointed person; and

(c) paragraphs (3) to (8) of regulation 29, regulation 30, paragraphs (3) to (8) of regulation 42 and regulation 43 apply as if the references to a hearing or an inquiry were references to a re-opened hearing or inquiry.

CHAPTER 2

Appeals determined by the Welsh Ministers following written representations, hearings, inquiries or combined proceedings

**Procedure after proceedings**

**48.**—(1) The appointed person must make a report in writing to the Welsh Ministers—

(a) in relation to an appeal dealt with by means of written representations, when the appointed person has considered the written representations; or

(b) after the close of the hearing, inquiry or combined proceedings.

(2) Rhaid i'r adroddiad gynnwys casgliadau ac argymhellion y person penodedig (neu resymau'r person penodedig dros beidio â gwneud unrhyw argymhellion).

(3) Pan fo asesydd wedi ei benodi, rhaid i'r asesydd, ar ôl diwedd yr achosion, lunio adroddiad ysgrifenedig i'r person penodedig ar y materion y penodwyd yr asesydd i gynghori yn eu cylch.

(4) Pan fo asesydd yn llunio adroddiad yn unol â pharagraff (3), rhaid i'r person penodedig atodi'r adroddiad hwnnw i'w adroddiad ei hun, a rhaid iddo ddatgan yn yr adroddiad hwnnw i ba raddau y mae'r person penodedig yn cytuno neu'n anghytuno ag adroddiad yr asesydd a, phan fo'r person penodedig yn anghytuno â'r asesydd, rhaid iddo nodi'r rhesymau dros yr anghytuno hwnnw.

(5) Wrth wneud eu penderfyniad caiff Gweinidogion Cymru ddiystyru—

(a) mewn perthynas ag apêl, neu ran o apêl, yr ymdrinnir â hi drwy sylwadau ysgrifenedig, unrhyw sylwadau ysgrifenedig sy'n dod i law y tu allan i'r terfynau amser perthnasol;

(b) unrhyw sylwadau ysgrifenedig, tystiolaeth neu unrhyw ddogfen arall sy'n dod i law ar ôl diwedd y gwrandawiad neu'r ymchwiliad.

(6) Mae paragraff (7) yn gymwys mewn perthynas ag apêl, neu ran o apêl, yr ymdrinnir â hi drwy sylwadau ysgrifenedig, os yw Gweinidogion Cymru yn penderfynu anghytuno ag argymhelliad a wneir gan y person penodedig oherwydd eu bod—

(a) yn anghytuno â'r person penodedig ynghylch unrhyw fater o ffaith a grybwyllir mewn casgliad a gyrhaeddir gan y person penodedig, neu fater o ffaith yr ymddengys iddynt hwy ei fod yn berthnasol i'r casgliad a gyrhaeddir gan y person penodedig; neu

(b) yn bwriadu ystyried unrhyw dystiolaeth newydd neu unrhyw fater newydd o ffaith (nad yw'n fater o bolisi Gweinidogion Cymru).

(7) Rhaid i Weinidogion Cymru beidio â dod i benderfyniad sy'n groes i'r argymhelliad a wnaed gan y person penodedig heb yn gyntaf—

(a) hysbysu'r apelydd, yr awdurdod cynllunio lleol a'r personau â buddiant sydd wedi cyflwyno sylwadau ysgrifenedig; a

(b) rhoi cyfle i'r rheini a hysbysir o dan is-baragraff (a) gyflwyno sylwadau ysgrifenedig ar y dystiolaeth newydd neu'r mater newydd o ffaith.

(2) The report must include the appointed person's conclusions and recommendations (or the appointed person's reasons for not making any recommendations).

(3) Where an assessor has been appointed, the assessor must, after the close of the proceedings, make a report in writing to the appointed person in respect of the matters on which the assessor was appointed to advise.

(4) Where an assessor makes a report in accordance with paragraph (3), the appointed person must append it to the appointed person's own report and must state in that report how far the appointed person agrees or disagrees with the assessor's report and, where the appointed person disagrees with the assessor, the reasons for that disagreement.

(5) When making their decision the Welsh Minsters may disregard—

(a) in relation to an appeal or part of an appeal dealt with by means of written representations, any written representations received outside the relevant time limits;

(b) any written representations, evidence or any other document received after the close of the hearing or inquiry.

(6) Paragraph (7) applies in relation to an appeal or part of an appeal dealt with by means of written representations, if the Welsh Ministers are disposed to disagree with a recommendation made by the appointed person because they—

(a) differ from the appointed person on any matter of fact mentioned in, or appearing to them to be material to, a conclusion reached by the appointed person; or

(b) propose to take into consideration any new evidence or any new matter of fact (not being a matter of Welsh Ministers' policy).

(7) The Welsh Ministers must not come to a decision which is at variance with the recommendation made by the appointed person without first—

(a) notifying the appellant, the local planning authority and the interested persons who made written representations; and

(b) affording those notified under subparagraph (a) an opportunity of making written representations upon the new evidence or new matter of fact.

(8) Mae paragraff (9) yn gymwys os yw Gweinidogion Cymru, ar ôl diwedd y gwrandawiad neu'r ymchwiliad, yn penderfynu anghytuno ag argymhelliad a wneir gan y person penodedig oherwydd eu bod—

(a) yn anghytuno â'r person penodedig ynghylch unrhyw fater o ffaith a grybwyllir mewn casgliad a gyrhaeddir gan y person penodedig, neu fater o ffaith yr ymddengys iddynt hwy ei fod yn berthnasol i gasgliad a gyrhaeddir gan y person penodedig; neu

(b) yn bwriadu ystyried unrhyw dystiolaeth newydd neu unrhyw fater newydd o ffaith (nad yw'n fater o bolisi Gweinidogion Cymru).

(9) Rhaid i Weinidogion Cymru beidio â dod i benderfyniad sy'n anghytuno â'r argymhelliad a wnaed gan y person penodedig heb yn gyntaf—

(a) hysbysu'r apelydd, yr awdurdod cynllunio lleol, y personau â buddiant a gyflwynodd sylwadau ysgrifenedig a'r personau a gymerodd ran yn y gwrandawiad neu'r ymchwiliad eu bod yn anghytuno, a'r rhesymau dros hynny; a

(b) rhoi cyfle iddynt gyflwyno sylwadau ysgrifenedig ar y dystiolaeth newydd neu'r mater newydd o ffaith i Weinidogion Cymru neu ofyn am ailagor y gwrandawiad neu'r ymchwiliad.

(10) Rhaid i'r apelydd, yr awdurdod cynllunio lleol, y personau â buddiant a gyflwynodd sylwadau ysgrifenedig a'r personau a gymerodd ran yn y gwrandawiad neu ymchwiliad sicrhau bod sylwadau ysgrifenedig neu geisiadau i ailagor y gwrandawiad neu'r ymchwiliad a gyflwynir o dan baragraffau (7) a (9) yn dod i law Gweinidogion Cymru o fewn y cyfnod a bennir yn hysbysiad Gweinidogion Cymru o dan y paragraffau hynny.

(11) Caiff Gweinidogion Cymru, fel yr ystyriant yn briodol, beri bod gwrandawiad neu ymchwiliad yn cael ei ailagor, a rhaid iddynt wneud hynny os gofynnir iddynt wneud hynny gan yr apelydd neu'r awdurdod cynllunio lleol o dan yr amgylchiadau a grybwyllir ym mharagraff (9), ac o fewn y cyfnod a bennir yn yr hysbysiad gan Weinidogion Cymru o dan baragraff (9).

(12) Pan ailagorir gwrandawiad neu ymchwiliad (pa un ai gan yr un person penodedig neu berson penodedig gwahanol)—

(8) Paragraph (9) applies if, after the close of the hearing or inquiry, the Welsh Ministers are disposed to disagree with a recommendation made by the appointed person because they—

(a) differ from the appointed person on any matter of fact mentioned in, or appearing to them to be material to, a conclusion reached by the appointed person; or

(b) propose to take into consideration any new evidence or new matter of fact (not being a matter of Welsh Ministers' policy).

(9) The Welsh Ministers must not come to a decision which is at variance with the recommendation made by the appointed person without first—

(a) notifying the appellant, the local planning authority, the interested persons who made written representations and the persons who took part in the hearing or inquiry of their disagreement and the reasons for it; and

(b) affording them an opportunity of making written representations upon the new evidence or new matter of fact to the Welsh Ministers or of asking for the re-opening of the hearing or inquiry.

(10) The appellant, the local planning authority, the interested persons who made written representations and the persons who took part in the hearing or inquiry must ensure that written representations or requests to re-open the hearing or inquiry made under paragraphs (7) and (9) are received by the Welsh Ministers within the period specified in the Welsh Ministers' notification under those paragraphs.

(11) The Welsh Ministers may, as they think fit, cause a hearing or inquiry to be re-opened, and they must do so if asked by the appellant or the local planning authority in the circumstances mentioned in paragraph (9) and within the period specified in the Welsh Ministers' notification under paragraph (9).

(12) Where a hearing or inquiry is re-opened (whether by the same or a different appointed person)—

(a) rhaid i Weinidogion Cymru anfon at yr apelydd, yr awdurdod cynllunio lleol, y personau â buddiant a gyflwynodd sylwadau ysgrifenedig a'r personau a gymerodd ran yn y gwrandawiad neu'r ymchwiliad ddatganiad ysgrifenedig o'r materion y gwahoddir tystiolaeth bellach mewn cysylltiad â hwy;

(b) rhaid i dystiolaeth bellach a gyflwynir ar ôl gofyn amdani beidio â bod yn fwy na 3,000 o eiriau, a rhaid ei chyflwyno o fewn y cyfnod a bennir gan Weinidogion Cymru ac yn y dull a bennir ganddynt hwy; ac

(c) mae paragraffau (3) i (8) o reoliad 29, rheoliad 30, paragraffau (3) i (8) o reoliad 42 a rheoliad 43 yn gymwys fel pe bai'r cyfeiriadau at wrandawiad neu ymchwiliad yn gyfeiriadau at wrandawiad neu ymchwiliad a ailagorir.

PENNOD 3

**Hysbysiad am benderfyniad**

**49.**—(1) Rhaid i Weinidogion Cymru neu'r person penodedig, yn ôl y digwydd, anfon y penderfyniad ar apêl, a'u rhesymau dros ddod i'r penderfyniad hwnnw, yn ysgrifenedig at—

(a) yr apelydd;

(b) yr awdurdod cynllunio lleol;

(c) y personau a gymerodd ran yn yr achosion;

(d) unrhyw berson arall a ofynnodd i gael hysbysiad ynghylch y penderfyniad ac y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried ei fod yn rhesymol ei hysbysu.

(2) Pan na fo copi o adroddiad y person penodedig yn cael ei anfon gyda'r hysbysiad am benderfyniad, rhaid i'r hysbysiad ddod gyda datganiad o gasgliadau'r person penodedig ac unrhyw argymhellion a wnaed gan y person penodedig, ac os nad yw person sydd â hawl i gael hysbysiad am y penderfyniad wedi cael copi o'r adroddiad hwnnw, rhaid cyflenwi copi o'r adroddiad hwnnw i'r person hwnnw ar gais ysgrifenedig i Weinidogion Cymru.

(3) Yn y rheoliad hwn nid yw "adroddiad" ("*report*") yn cynnwys unrhyw ddogfennau a atodir i'r adroddiad; ond caiff unrhyw berson sydd wedi cael copi o'r adroddiad wneud cais ysgrifenedig i Weinidogion Cymru, o fewn 6 wythnos i ddyddiad penderfyniad Gweinidogion Cymru, am gyfle i weld unrhyw ddogfennau o'r fath, a rhaid i Weinidogion Cymru roi'r cyfle hwnnw i'r person hwnnw.

(4) Rhaid i unrhyw berson sy'n gwneud cais i Weinidogion Cymru o dan baragraff (2) sicrhau bod Gweinidogion Cymru yn cael y cais o fewn 4 wythnos i benderfyniad Gweinidogion Cymru.

(a) the Welsh Ministers must send to the appellant, the local planning authority, the interested persons who made written representations and the persons who took part in the hearing or inquiry a written statement of the matters in respect of which further evidence is invited;

(b) further evidence submitted following a request must not exceed 3,000 words and must be submitted in the time and manner specified by the Welsh Ministers; and

(c) paragraphs (3) to (8) of regulation 29, regulation 30, paragraphs (3) to (8) of regulation 42 and regulation 43 apply as if references to a hearing or an inquiry were references to a re-opened hearing or inquiry.

CHAPTER 3

**Notice of decision**

**49.**—(1) The Welsh Ministers, or the appointed person as the case may be, must send the decision on an appeal, and their reasons for it in writing to—

(a) the appellant;

(b) the local planning authority;

(c) the persons who took part in the proceedings;

(d) any other person who asked to be notified of the decision and whom the Welsh Ministers consider it reasonable to notify.

(2) Where a copy of the appointed person's report is not sent with the notification of the decision, the notification must be accompanied by a statement of the appointed person's conclusions and of any recommendations made by the appointed person, and if a person entitled to be notified of the decision has not received a copy of that report, that person must be supplied with a copy of it on written application to the Welsh Ministers.

(3) In this regulation "report" ("*adroddiad*") does not include any documents appended to it; but any person who has received a copy of the report may apply to the Welsh Ministers in writing, within 6 weeks of the date of the Welsh Ministers decision, for an opportunity to inspect any such documents and the Welsh Ministers must afford that person that opportunity.

(4) Any person applying to the Welsh Ministers under paragraph (2) must ensure that the application is received by the Welsh Ministers within 4 weeks of the Welsh Ministers' determination.

# RHAN 8

## Penderfyniadau a ddiddymir

**Y weithdrefn yn dilyn diddymu penderfyniad**

**50.**—(1) Pan fo penderfyniad Gweinidogion Cymru neu berson penodedig ar apêl yn cael ei ddiddymu mewn achosion gerbron unrhyw lys—

(a) rhaid i Weinidogion Cymru anfon at y personau a gyflwynodd sylwadau ysgrifenedig neu a gymerodd ran yn y gwrandawiad neu ymchwiliad ddatganiad ysgrifenedig o'r materion y gwahoddir sylwadau pellach mewn cysylltiad â hwy at ddibenion rhoi ystyriaeth bellach i'r apêl;

(b) rhaid i Weinidogion Cymru roi cyfle i'r personau hynny gyflwyno sylwadau ysgrifenedig iddynt hwy mewn cysylltiad â'r materion hynny; ac

(c) caiff Gweinidogion Cymru, fel yr ystyriant yn briodol—

(i) peri i'r gwrandawiad neu'r ymchwiliad i gael ei ailagor;

(ii) yn achos gwrandawiad, beri i ymchwiliad gael ei gynnal yn lle hynny (pa un ai gan yr un person penodedig neu berson penodedig gwahanol);

(iii) yn achos ymchwiliad, beri i wrandawiad gael ei gynnal yn lle hynny (pa un ai gan yr un person penodedig neu berson penodedig gwahanol);

(iv) peri i wrandawiad neu ymchwiliad gael ei gynnal (pan na fo un wedi ei gynnal yn flaenorol); neu

(v) penderfynu ar y mater ar sail sylwadau ysgrifenedig.

(2) Os yw Gweinidogion Cymru yn ailagor y gwrandawiad neu'r ymchwiliad, mae rheoliadau 29 a 42 yn gymwys fel pe bai'r cyfeiriadau at wrandawiad neu ymchwiliad yn gyfeiriadau at wrandawiad neu ymchwiliad a ailagorir.

(3) Rhaid i'r personau hynny sy'n cyflwyno sylwadau sicrhau bod y fath sylwadau yn dod i law Gweinidogion Cymru o fewn y cyfnod a bennir yn natganiad Gweinidogion Cymru o dan baragraff (1)(a).

# PART 8

## Quashed decisions

**Procedure following quashing of decision**

**50.**—(1) Where a decision of the Welsh Ministers or an appointed person on an appeal is quashed in proceedings before any court, the Welsh Ministers—

(a) must send to the persons who submitted written representations or who took part in the hearing or inquiry, a written statement of the matters in respect of which further representations are invited for the purposes of their further consideration of the appeal;

(b) must afford to those persons the opportunity of making written representations to them in respect of those matters; and

(c) may, as they think fit—

(i) cause the hearing or inquiry to be re-opened;

(ii) in the case of a hearing, cause an inquiry to be held instead (whether by the same or a different appointed person);

(iii) in the case of an inquiry, cause a hearing to be held instead (whether by the same or a different appointed person);

(iv) cause a hearing or inquiry to be held (where none was held previously); or

(v) determine the matter on the basis of written representations.

(2) If the Welsh Ministers re-open the hearing or inquiry regulation 29 and regulation 42 apply as if the references to a hearing or inquiry are to a re-opened hearing or inquiry.

(3) Those persons making representations must ensure that such representations are received by the Welsh Ministers within the period specified in the Welsh Ministers' statement under paragraph (1)(a).

# RHAN 9

## Cyfarwyddydau Diogelwch Gwladol

**Addasiadau pan roddir cyfarwyddyd diogelwch gwladol**

**51.** Mae'r addasiadau a nodir yn Atodlen 2 yn cael effaith pan roddir cyfarwyddyd gan Weinidogion Cymru o dan—

(a) adran 321(3)(**1**) o'r Ddeddf Gynllunio (ymchwiliadau cynllunio sydd i'w cynnal yn gyhoeddus yn ddarostyngedig i eithriadau penodol);

(b) paragraff 6(6) o Atodlen 3(**2**) i'r Ddeddf Adeiladau Rhestredig (ymchwiliadau lleol a gwrandawiadau); neu

(c) paragraff 6(6) o'r Atodlen(**3**) i'r Ddeddf Sylweddau Peryglus (ymchwiliadau lleol a gwrandawiadau).

# RHAN 10

## Hysbysiadau Gorfodi a ddyroddir gan Weinidogion Cymru

**Cymhwyso Rheoliadau i hysbysiadau gorfodi a ddyroddir gan Weinidogion Cymru**

**52.** Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i apelau yn erbyn hysbysiadau gorfodi a ddyroddir gan Weinidogion Cymru o dan adran 182 o'r Ddeddf Gynllunio ac i apelau yn erbyn hysbysiadau gorfodi adeiladau rhestredig a ddyroddir gan Weinidogion Cymru o dan adran 46 o'r Ddeddf Adeiladau Rhestredig, yn ddarostyngedig i'r addasiadau a nodir yn Atodlen 3.

(**1**) Mewnosodwyd is-adrannau (5) i (12) o adran 321 gan adran 80(1) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (p. 5) ("Deddf 2004").

(**2**) Mewnosodwyd paragraff 6A o Atodlen 3 gan adran 80(3) o Ddeddf 2004.

(**3**) Mewnosodwyd paragraff 6A o'r Atodlen gan adran 80(3) o Ddeddf 2004.

# PART 9

## National Security Directions

**Modifications where national security direction given**

**51.** The modifications set out in Schedule 2 have effect where a direction is given by the Welsh Ministers under—

(a) section 321(3)(**1**) of the Planning Act (planning inquiries to be held in public subject to certain exceptions);

(b) paragraph 6(6) of Schedule 3(**2**) to the Listed Buildings Act (local inquiries and hearings); or

(c) paragraph 6(6) of the Schedule(**3**) to the Hazardous Substances Act (local inquiries and hearings).

# PART 10

## Enforcement Notices issued by the Welsh Ministers

**Application of Regulations to enforcement notices issued by the Welsh Ministers**

**52.** These Regulations apply to appeals against enforcement notices issued by the Welsh Ministers under section 182 of the Planning Act and to appeals against listed building enforcement notices issued by the Welsh Ministers under section 46 of the Listed Buildings Act, subject to the modifications set out in Schedule 3.

(**1**) Section 321 subsections (5) to (12) were inserted by section 80(1) of the Planning and Compulsory Purchase Act 2004 (c. 5) ("the 2004 Act").

(**2**) Paragraph 6A of Schedule 3 was inserted by section 80(3) the 2004 Act.

(**3**) Paragraph 6A of the Schedule was inserted by section 80(3) of the 2004 Act.

# RHAN 11

## Dirymu a diwygiad canlyniadol

**Darpariaethau dirymu, darpariaethau trosiannol a darpariaethau arbed**

**53.**—(1) Mae'r offerynnau a restrir yng ngholofn (1) o Atodlen 4 wedi eu dirymu i'r graddau y maent yn gymwys o ran Cymru i'r graddau a nodir yng ngholofn (3), yn ddarostyngedig i baragraffau (2) a (3).

(2) Mae'r offerynnau a restrir yng ngholofn (1) o Atodlen 4 yn parhau i fod yn gymwys i apelau, ac eithrio apelau gorfodi, pan wneir yr apêl mewn perthynas â chais a wnaed cyn y daw'r Rheoliadau hyn i rym.

(3) Mae'r offerynnau a restrir yng ngholofn (1) o Atodlen 4 yn parhau i fod yn gymwys i apelau gorfodi pan wneir yr apêl mewn perthynas â hysbysiad gorfodi a ddyroddwyd cyn y daw'r Rheoliadau hyn i rym.

**Diwygiad canlyniadol**

**54.**—(1) Mae Gorchymyn 2012 wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Yn Atodlen 2, yn yr Hysbysiad o dan Erthygl 10 o Gais am Ganiatâd Cynllunio, yn lle "Rhan 1 o Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Atgyfeiriadau ac Apelau) (Gweithdrefn Sylwadau Ysgrifenedig) (Cymru) 2015" rhodder "Rhan 3 o Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Ceisiadau Atgyfeiriedig a Gweithdrefn Apelau) (Cymru) 2017".

# PART 11

## Revocation and consequential amendment

**Revocation, transitional and saving provisions**

**53.**—(1) The instruments listed in column (1) of Schedule 4 are revoked in so far as they apply in relation to Wales to the extent indicated in column (3), subject to paragraphs (2) and (3).

(2) The instruments listed in column (1) of Schedule 4 continue to apply to appeals, other than enforcement appeals, where the appeal is made in relation to an application made before these Regulations come into force.

(3) The instruments listed in column (1) of Schedule 4 continue to apply to enforcement appeals where the appeal is made in relation to an enforcement notice issued before these Regulations come into force.

**Consequential amendment**

**54.**—(1) The 2012 Order is amended as follows.

(2) In Schedule 2, in the Notice Under Article 10 of Application for Planning Permission, for "Part 1 of the Town and Country Planning (Referrals and Appeals) (Written Representations Procedure) (Wales) Regulations 2015" substitute "Part 3 of the Town and Country Planning (Referred Applications and Appeals Procedure) (Wales) Regulations 2017".

*Jane Hutt*

Un o Weinidogion Cymru
5 Ebrill 2017

One of the Welsh Ministers
5 April 2017

## ATODLEN 1 — Rheoliad 3

## Defnyddiau datblygu masnachol bach

**Siopau**

**1.**

Defnydd ar gyfer yr holl ddibenion a ganlyn, neu unrhyw un neu ragor ohonynt—

(a) manwerthu nwyddau ac eithrio bwyd poeth,

(b) fel swyddfa'r post,

(c) ar gyfer gwerthu tocynnau neu fel swyddfa deithio,

(d) ar gyfer gwerthu brechdanau neu fwyd oer arall i'w fwyta i ffwrdd o'r fangre honno,

(e) ar gyfer trin gwallt,

(f) ar gyfer trefnu angladdau,

(g) ar gyfer arddangos nwyddau i'w gwerthu,

(h) ar gyfer hurio nwyddau neu eitemau domestig neu bersonol,

(i) ar gyfer golchi neu lanhau dillad neu ffabrigau yn y fangre,

(j) ar gyfer derbyn nwyddau i'w golchi, eu glanhau neu eu hatgyweirio,

pan fo'r gwerthu, yr arddangos neu'r gwasanaeth ar gyfer aelodau o'r cyhoedd sy'n ymweld.

**Gwasanaethau ariannol a phroffesiynol**

**2.**

Defnydd ar gyfer darparu—

(a) gwasanaethau ariannol,

(b) gwasanaethau proffesiynol (ac eithrio gwasanaethau iechyd neu feddygol), neu

(c) unrhyw wasanaethau eraill (gan gynnwys defnydd fel swyddfa fetio) y mae'n briodol eu darparu mewn ardal siopa,

pan ddarperir y gwasanaethau yn bennaf i aelodau o'r cyhoedd sy'n ymweld.

**Bwyd a diod**

**3.**

Defnydd ar gyfer gwerthu bwyd neu ddiod ar gyfer ei fwyta neu ei yfed yn y fangre neu fwyd poeth ar gyfer ei fwyta i ffwrdd o'r fangre.

## SCHEDULE 1 — Regulation 3

## Minor commercial development uses

**Shops**

**1.**

Use for all or any of the following purposes—

(a) for the retail sale of goods other than hot food,

(b) as a post office,

(c) for the sale of tickets or as a travel agency,

(d) for the sale of sandwiches or other cold food for consumption off the premises,

(e) for hairdressing,

(f) for the direction of funerals,

(g) for the display of goods for sale,

(h) for the hiring out of domestic or personal goods or articles,

(i) for the washing or cleaning of clothes or fabrics on the premises,

(j) for the reception of goods to be washed, cleaned or repaired,

where the sale, display or service is to visiting members of the public.

**Financial and professional services**

**2.**

Use for the provision of—

(a) financial services,

(b) professional services (other than health or medical services), or

(c) any other services (including use as a betting office) which it is appropriate to provide in a shopping area,

where the services are provided principally to visiting members of the public.

**Food and drink**

**3.**

Use for the sale of food or drink for consumption on the premises or of hot food for consumption off the premises.

# ATODLEN 2 Rheoliad 51

## Addasiadau pan roddir cyfarwyddyd diogelwch gwladol

**Dehongli**

**1.** Mae rheoliad 3 i'w ddarllen fel pe bai'r canlynol wedi ei fewnosod yn y lleoedd priodol—

> "ystyr "cyfarwyddyd diogelwch" ("*security direction*") yw cyfarwyddyd a roddir gan Weinidogion Cymru neu'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 321(3) o'r Ddeddf Gynllunio, paragraff 6(6) o Atodlen 3 i'r Ddeddf Adeiladau Rhestredig neu baragraff 6(6) o'r Atodlen i'r Ddeddf Sylweddau Peryglus,";

> "ystyr "cynrychiolydd penodedig" ("*appointed representative"*) yw person a benodir o dan adran 321(5) neu (6) o'r Ddeddf Gynllunio, adrannau 22 a 40 o'r Ddeddf Adeiladau Rhestredig a pharagraff 6A o Atodlen 3 iddi, ac adran 21 o'r Ddeddf Sylweddau Peryglus a pharagraff 6A o'r Atodlen iddi,";

> "ystyr "tystiolaeth gaeedig" ("*closed evidence*") yw tystiolaeth sy'n ddarostyngedig i gyfarwyddyd diogelwch;".

**Arolygu safleoedd**

**2.** Mae rheoliad 8 i'w ddarllen fel pe bai—

(a) ar ddiwedd paragraff (2), "a rhaid iddynt roi'r fath hysbysiad i unrhyw gynrychiolydd penodedig" wedi ei fewnosod;

(b) ar ôl paragraff (2), y canlynol wedi ei fewnosod—

> "(2A) Pan fo arolygu safle yn golygu arolygu tystiolaeth gaeedig, caiff Gweinidogion Cymru arolygu'r tir yng nghwmni'r apelydd ac unrhyw gynrychiolydd penodedig."

**Gwybodaeth bellach**

**3.** Mae rheoliad 9 i'w ddarllen fel pe bai'r canlynol wedi ei fewnosod ar ôl paragraff (8)—

